# MESUR ADDYSG (CYMRU) 2009

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU

### Rhan 1 – Apelau a Hawliadau Addysg gan Blant

### Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Mae adrannau 9-16 yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

### *Adran 12 – Datrys anghydfodau (mewnosod adran 28ID newydd – Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995)*

58. Mae is-adran (1) o adran 281D newydd yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau er mwyn osgoi neu ddatrys anghytundebau rhwng plentyn anabl a'r corff sy'n gyfrifol am ysgol.

59. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol wneud trefniadau sy'n darparu ar gyfer penodi person annibynnol i helpu i osgoi neu ddatrys anghydfodau.

60. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru pan fydd yr Awdurdodau'n gwneud trefniadau i ddarparu gwasanaethau datrys anghydfodau.

61. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau datrys anghydfodau.

62. Mae is-adran (5) yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Addysg Lleol i sicrhau bod plant anabl, rhieni plant anabl, penaethiaid ysgolion a pherchenogion ysgolion yn eu hardal, a phersonau eraill o'r fath y mae'r Awdurdodau o'r farn eu bod yn briodol, yn ymwybodol bod gwasanaethau datrys anghydfodau ar gael.

63. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Addysg Lleol hysbysu plant anabl, rhieni plant anabl a chyfeillion achos ar gyfer plant anabl yn eu hardal na fydd cymryd rhan mewn trefniadau datrys anghydfodau'n effeithio ar hawl unrhyw berson i wneud hawliad i'r Tribiwnlys.